**Gwahoddiad i dendro ar gyfer darpariaeth/trwydded i Offer Rheoli Cynnwys Ar-lein**

| | |
|---|---|
| Cyhoeddwyd: | Dydd Mercher 18 Hydref 2017 |
| Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau: | 12.00 canol dydd Dydd Mercher 22 Tachwedd 2017 |
| Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau am eglurhad: | 12.00 canol dydd Dydd Mercher 8 Tachwedd 2017 |

**Cyflwyniad**

Mae'r ddogfen hon yn gwahodd ceisiadau gan unigolion, gwmnïau a sefydliadau y mae ganddynt ddiddordeb mewn darparu a/neu drwyddedu ac sy'n gallu darparu a/neu drwyddedu swît o offer ar gyfer cipio fideo ar-lein, ffrydio'n fyw a chyhoeddi ar gyfryngau cymdeithasol, fel y disgrifir yn fwy penodol yn y tudalennau nesaf.

Mae'r Gwahoddiad i Dendro ("GID") yma yn cynnwys y rhannau canlynol:

| | |
|---|---|
| Rhan 1 | Gwybodaeth Gefndirol |
| Rhan 2 | Gwybodaeth Bellach am y Cytundeb |
| Rhan 3 | Gwybodaeth i'w Chynnwys yn yr Ymateb i'r Tendr |
| Rhan 4 | Amlinelliad y Broses Dendro a Cheisiadau am Wybodaeth Bellach |
| Rhan 5 | Meini Prawf Gwerthuso a Gwobrwyo'r Cytundeb |
| Rhan 6 | Nodiadau Cyfreithiol |

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Cytundeb |
| Atodiad 2 | Matrics Gwerthuso |
| Atodiad 3 | Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol |

**Darllenwch y Gwahoddiad i Dendro yma yn ofalus. Mae'n bosib na fydd ymatebion i'r tendr nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion y Gwahoddiad i Dendro yma yn cael eu hystyried.**

**Mae'r broses dendr yma, gan gynnwys y Gwahoddiad i Dendr yma, yn ddarostyngedig i'r Nodiadau Cyfreithiol a nodir yn Rhan 6.**

## Rhan 1 Gwybodaeth Gefndirol

### 1.1 S4C

***Pwy ydyn ni***

S4C yw'r unig sianel deledu Gymraeg yn y byd. Fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, mae'n comisiynu cynhyrchwyr annibynnol i gyfleu'r rhan fwyaf o'i rhaglenni.

Mae S4C yn darlledu dros 115 awr o raglenni Cymraeg bob wythnos, gan gynnwys chwaraeon, drama, cerddoriaeth, ffreithiol, adloniant a digwyddiadau ar draws ystod o blatfformau. Mae S4C yn cynnig gwasanaethau cynhwysfawr i blant: Cyw i wylwyr iau, Stwnsh i blant hŷn a rhaglenni i bobl yn eu harddegau.

***Ein gwasanaethau ar-lein***

Mae darpariaeth ar-lein S4C yn cynnwys gwasanaeth dal-i-fyny ar ei gwefan ac apiau, ac mae'n symud yn gynyddol gyda'i chynulleidfaoedd i mewn i fideo yn y gofod cymdeithasol. Mae hyn yn ffurfio rhan allweddol o'i strategaeth ar gyfer y 3 blynedd nesaf. O'r herwydd, mae S4C yn ymwneud yn fawr â chyhoeddi cynnwys fideo ar-lein a bydd yn cynyddu'r defnydd hyn er mwyn tyfu ei chynulleidfa ar y platfformau cymdeithasol.

Am ragor o wybodaeth am S4C, fe'ch cyfeirir at Adroddiad Blynyddol 2016/17, sydd ar gael ar wefan S4C (s4c.cymru), neu cysylltwch â:

Gwifren Gwylwyr
S4C
Parc Tŷ Glas
Llanisien
Caerdydd
CF14 5DU

Ffôn: 0370 600 4141

### 1.2 Gwybodaeth am Gefndir y Cytundeb

Mae S4C yn edrych i ymrwymo i gytundeb ar gyfer darpariaeth a/neu drwydded ar gyfer platfform/offer/meddalwedd i ddarparu swyddogaethau cipio fideo ar-lein, ffrydio'n fyw a chyhoeddi ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae hyn yn bennaf yn golygu galluogi ffrydio chwaraeon byw a digwyddiadau eraill i gyfryngau cymdeithasol, clipio a rhannu o ffrydiau byw er mwyn rhannu ar gyfryngau cymdeithasol, yn ogystal ag uwchlwytho a chyhoeddi clipiau fideo'n uniongyrchol i gyfryngau cymdeithasol.

Mae disgrifiad pellach o'r cytundeb a gofynion S4C ar gael yn Rhan 2.

**Rhan 2 Gwybodaeth Bellach am y Cytundeb**

**2.1 Anghenion S4C**

**Gofynion Angenrheidiol ar gyfer pob Offer:**

Rhaid i bob ymateb tendr ddarparu mynediad i S4C a'i chwmnïau cynhyrchu enwebedig i blatfform/offer/meddalwedd a fyddai'n galluogi S4C ac/neu ei chwmnïau cynhyrchu i reoli cynnwys digidol yn effeithiol ar draws nifer o blatfformau cyfryngau cymdeithasol ac ar-lein gwahanol. Rhaid i bob platfform/offer/meddalwedd:

- Ganiatáu rheolaeth lawn, aml-haenog o freintiau defnyddiwr.
- Ganiatáu mewngofnodi/rheolaeth defnyddiwr lluosog, o fewn S4C ac ar gyfer cwmnïau cynhyrchu allanol sy'n cynhyrchu cynnwys ar gyfer S4C. (Dim cyfyngiadau ar y nifer o seddi/defnyddwyr o fewn S4C neu ar gyfer cwmnïau cynhyrchu a gytundebir gan S4C).
- Alluogi S4C i geo-blocio cynnwys.
- Trefnu ac arbed cynnwys o fewn system ffeilio hylaw sydd â chapasiti storio anghyfyngedig.
- Storio data fideo S4C a'i wneud yn hygyrch ar unrhyw adeg.
- Cipio a chyflwyno data dadansoddol manwl ar fideos a ddosberthir yn unigol ac ar fideos a ddosberthir ar y cyd.
- Bod yn hawdd i'w ddefnyddio a chaniatáu integreiddio effeithiol gyda gwasanaethau trydydd parti.

Rhaid i bob Tendrwr hefyd ddarparu gwasanaeth cefnogi effeithiol trwy gydol cyfnod y cytundeb. Mae S4C yn disgwyl i'r tendrwr llwyddiannus ymateb i ymholiadau gan S4C ac/neu ei chwmnïau cynhyrchu yn amserol o fewn amserlenni a gytunwyd.

Oherwydd natur newidiol y diwydiant, disgwylir i Dendrwyr hefyd fedru dangos gallu i esblygu'r meddalwedd/platfform/offer i ymateb i arferion defnyddwyr sy'n newid, tueddiadau'r diwydiant a datblygiadau technolegol.

**Offer ar gyfer Cipio/Clipio'n Fyw (clipio o nifer o ffrydoedd gwe sydd eisoes yn bodoli)**

Dylai'r offer hwn alluogi S4C i:

- Glipio fideos o ffrwd byw sydd eisoes yn bodoli (h.y. i ddewis adran o'r ffrwd byw a'i rannu i nifer o blatfformau).
- Rhannu'r clipiau'n frodorol ar nifer o blatfformau (Facebook, Twitter a YouTube yn angenrheidiol, eraill yn ddymunol).
- Gweithio/clipio nifer o brosiectau ffrydio byw ar yr un pryd. (O leiaf 2 ffrwd byw ar yr un pryd, gyda'r gallu i newid ffynonellau).
- Clipio o ddata hanesyddol (24 awr yn angenrheidiol, hydoedd hirach yn ddymunol).
- Cynnwys opsiynau fideo *pre-roll* a *post-roll* ar fideos.

**Offer ar gyfer Ffrydio'n Fyw (creu ffrydiau byw newydd trwy nifer o blatfformau)**

Dylai'r offer hwn alluogi S4C i:

- Greu ffrwd byw ar nifer o blatfformau ar yr un pryd (Facebook, Periscope a YouTube yn angenrheidiol, gwefannau a phlatfformau cymdeithasol eraill yn ddymunol).

- Clipio o’r ffrwd gwe byw (h.y. i ddewis adran o’r ffrwd fideo a’i rhannu i nifer o blatfformau. Facebook, Twitter a YouTube yn angenrheidiol, opsiynau eraill yn ddymunol).
- Gweithio/clipio nifer o brosiectau ffrydio gwe byw ar yr un pryd. Bydd hi’n ofynnol i S4C ddefnyddio o leiaf 2 ffrwd gwe byw ar yr un pryd (3 yn ddymunol), gyda’r gallu i newid ffynonellau lle bo angen.
- Arbed copi fideo o’r ffrydiau gwe a grëwyd, er mwyn galluogi gwylio ar alw trwy’r platfformau.

**Offer Cyhoeddi Fideo Brodorol (uwchlwytho cynnwys a chyhoeddi trwy nifer o blatfformau)**

Dylai’r offer hwn alluogi S4C i:

- Uwchlwytho cynnwys i blatfform unigol er mwyn galluogi S4C i reoli’r cynnwys yn effeithiol.
- Amserlenni a chyhoeddi fideos ar nifer o blatfformau (Facebook, Twitter a YouTube yn angenrheidiol, platfformau eraill yn ddymunol).
- Cynnwys opsiynau fideo *pre-roll* a *post-roll* ar fideos.

## 2.2 Telerau a Hyd y Cytundeb

Mae’r cytundeb drafft ynghlwm yn Atodiad 1.

Bydd y cytundeb am gyfnod cychwynnol o 1 flwyddyn gyda dau opsiwn i ymestyn hyd y cytundeb am 2 flynedd pellach.

Bydd S4C yn adolygu’r cytundeb a pherfformiad y cwmni llwyddiannus ar ôl y pedwar mis cyntaf ac mae’n cadw’r hawl i derfynu’r cytundeb ar ddiwedd y cyfnod hwn yn dilyn adolygiad o’r fath. Bydd yr adolygiad hwn yn ychwanegol i unrhyw adolygiadau rheolaidd a ddarperir yn y cytundeb.

Mae S4C yn cynnal y broses dendro hon gan ddefnyddio’r weithdrefn agored dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (Public Contracts Regulations 2015), felly ni chaniateir unrhyw drafodaeth ynghylch y cytundeb drafft wedi i’r tendr gael ei roi i’r Tendrwr llwyddiannus. Caniateir diwygiadau i’r cytundeb drafft er mwyn adlewyrchu’r ymateb tendro llwyddiannus a/neu er mwyn egluro amodau’r cytundeb drafft yn unig. Trwy gyflwyno ymateb i’r GID yma, mae Tendrwyr yn cytuno, os byddant yn llwyddiannus, eu bod yn ymrwymo i gytundeb gydag S4C yn unol â’r ffurf a nodir yn Atodiad 1.

## 2.3 Gwarant Rhiant Cwmni a Chonsortia

Noder efallai y bydd S4C yn gofyn i’r Tendrwr llwyddiannus ddarparu gwarantau gan riant gwmni. Os yw consortiwm yn cynnig tendr a bod ei ymateb maes o law yn llwyddiannus gall y bydd ar S4C eisiau: (i) i’r consortiwm ffurfio endid cyfreithiol cyn arwyddo cytundeb; a/neu (ii) cyd-atebolrwydd ac atebolrwydd unigol holl aelodau’r consortiwm; a/neu (iii) gwarantau a/neu ymrwymiadau gan rai neu’r oll o aelodau’r consortiwm ar ran rhai neu’r oll o aelodau eraill y consortiwm.

## 2.4 Ffi Ddisgwyliedig

Mae S4C yn amcangyfrif y dylid medru darparu’r gwasanaeth cyfan yn unol â gofynion S4C am ffi blynyddol o tua £30,000 - £50,000 (gan eithrio TAW). Croesawir ceisiadau sy’n cyflwyno ffigwr is.

**Rhan 3 Gwybodaeth i'w Chynnwys yn yr Ymateb i'r Tendr**

**3.1 Gwybodaeth Angenrheidiol**

Dylai'r Tendrwyr ddarparu'r wybodaeth ganlynol fel rhan o'r ymateb tendro er mwyn dangos yn fanwl sut y bodlonir gofynion S4C:

3.1.1 **Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol** yn y ffurf y'i gosodir yn Atodiad 3.

3.1.2 Datganiad yn gosod disgrifiad o'r meddalwedd/platfform/offer a sut y caiff anghenion S4C eu diwallu. Dylai'r Tendrwr osod yn glir sut y bydd yn sicrhau pob elfen angenrheidiol. Dylai'r Tendrwr ddangos gallu'r gwasanaeth i gydweddu ac integreiddio ag elfennau trydydd parti, lle'n berthnasol.

3.1.3 Disgrifiad cynhwysfawr o brofiad perthnasol y Tendrwr o fewn y tair blynedd diwethaf gan gynnwys rhestr o gwsmeriaid presennol y Tendrwr sy'n debyg i S4C. Disgrifiad o hanes y meddalwedd/platfform/offer a'r modd y mae eraill wedi gwneud defnydd ohono.

3.1.4 Methodoleg y Tendrwr ar gyfer darpariaeth o wasanaeth cefnogi safon uchel a chyfathrebu effeithiol gyda S4C trwy gydol cyfnod y cytundeb. Dylai'r Tendrwr ddangos ei allu i gadw i fyny â datblygiadau yn y diwydiant ac i ddatblygu'r gwasanaeth ar sail parhaus.

3.1.5 Disgrifiad o ddefnyddioldeb y gwasanaeth a pha mor hawdd yw'r gwasanaeth i'w ddefnyddio gan staff a defnyddwyr gweinyddol.

3.1.6 Manylion cost y gwasanaeth i S4C. Gweler Rhan 3.2 am ragor o wybodaeth.

3.1.7 Unrhyw sylwadau cyfreithiol sy'n codi o'r Nodiadau Cyfreithiol a'r Cytundeb Drafft a nodir yn Atodiad 1.

<u>Mynediad Treialu/Demo</u>

Gall S4C ofyn i Dendrwyr ddarparu mynediad treialu/demo ar gyfer staff S4C i'r gwasanaeth a gynigir gan y Tendrwr yn ystod y cyfnod gwerthuso, er mwyn galluogi S4C i asesu defnyddioldeb a pha mor hawdd yw'r gwasanaeth i'w ddefnyddio a'i allu i ddiwallu gofynion S4C. Dylai'r mynediad treialu/demo, i'r graddau eithaf posib, adlewyrchu'r gwasanaeth a gynigir gan y Tendrwr yn ei ymateb Tendr yn gywir. Dylid darparu'r mynediad treialu heb gost i S4C.

Gall y Tendrwyr gynnwys gwybodaeth ychwanegol pan fo hynny'n berthnasol i'w hymatebion tendro, ond ni ddylai ymatebion tendro gynnwys unrhyw wybodaeth amherthnasol nas gofynnwyd amdani yn benodol neu sy'n ofynnol yn ôl y GID hwn gan gynnwys, er enghraifft, llenyddiaeth at ddibenion gwerthu ac amodau masnachu safonol.

Rhaid i ymatebion tendro barhau i fod yn agored am 3 mis o'r dyddiad rhoddir ar gyfer cyflwyno ymatebion tendro

Os bydd y Tendrwr (neu, yn achos ymateb tendro a gyflwynir gan gonsortiwm, unrhyw aelod o'r consortiwm), ar unrhyw adeg, yn dod yn ymwybodol o'r ffaith bod unrhyw wybodaeth y mae (neu, yn achos ymateb tendro a gyflwynir gan gonsortiwm, unrhyw aelod o'r consortiwm) wedi ei ddarparu i S4C mewn cysylltiad â'r broses dendro hon yn anghyflawn,

yn anghywir neu'n gamarweiniol mewn unrhyw ffordd neu heb fod yn gywir mwyach, rhaid hysbysu S4C o hyn ar unwaith.

### 3.2 Ffi

Mae S4C yn mynnu bod y gwasanaethau yn cael eu darparu am ffi sefydlog, gan gynnwys unrhyw gostau gosod, rheoli cyfrif, gweinyddu, staffio, cyfarfodydd a'r holl gostau a'r treuliau eraill sy'n codi o ddarparu'r gwasanaeth. Rhaid cyfleu'r ffi sefydlog hon mewn punnoedd sterling neu ei throsi i bunnoedd sterling, heb gynnwys TAW, ac mae'n rhaid iddi fod yn sefydlog trwy gydol y cytundeb.

Dylai Tendrwyr nodi'r ffi sy'n daladwy am y gwasanaethau a'r rhestr daliadau awgrymedig mewn ffordd eglur. Dylai Tendrwyr nodi'r rhagdybiaethau y mae'r ffi wedi eu seilio arnynt, gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau ar y gwasanaeth ac unrhyw elfennau a allai achosi ffioedd uwch.

### 3.3 Uchafswm Tudalennau

Dylai Tendrwyr geisio bod yn gryno wrth ddrafftio eu hymatebion i'r GID yma. Ni ddylai ymateb i'r GID yma fod yn hirach na 10 tudalen A4 o hyd ac ni ddylid defnyddio maint ffont llai na Verdana 10. Mae S4C yn cadw'r hawl i eithrio o'r broses dendro unrhyw ymateb i'r GID nad yw yn cydymffurfio â'r gofynion hyn.

Nid yw'r cyfyngiad tudalennau uchod yn cynnwys unrhyw ddogfennau yr atodir i'r brif ddogfen ymateb i'r GID.

**Rhan 4 Amlinelliad y Broses Dendro a Cheisiadau am Wybodaeth Bellach**

## 4.1 Amlinelliad y Broses Dendro

Bydd y broses dendro hon yn cynnwys y camau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Cam 1 | Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am esboniad | 12.00 canol dydd Dydd Mercher 8 Tachwedd 2017 |
| Cam 2 | Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion tendro | 12.00 canol dydd Dydd Mercher 22 Tachwedd 2017 |
| Cam 3 | Dechrau ar y gwaith o werthuso ymatebion tendro (gan gynnwys mynediad treialu/demo) | Dydd Iau 23 Tachwedd 2017* |
| Cam 4 | Hysbysiad ynghylch canlyniadau'r gwaith gwerthuso | Dydd Gwener 1 Rhagfyr 2017* |
| Cam 5 | Llofnodi cytundeb | Dydd Gwener 15 Rhagfyr 2017* |

Noder y gellid newid y dyddiadau sydd wedi eu marcio â *.

## 4.2 Cyflwyno Ymatebion Tendro

Gofynnir i Dendrwyr gyflwyno ymateb tendro yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unol â gofynion y GID hwn, ar ffurf electronig, erbyn y dyddiad cau ar gyfer cael ymatebion tendro a nodir yn Rhan 4.1 uchod.

Dylid nodi 'Tendr Offer Rheoli Cynnwys Ar-lein' yn eglur ar ymatebion tendro a'u hanfon mewn neges e-bost at:

E-bost: **Tendr.Cyfathrebu@s4c.cymru**

Caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn y Gymraeg neu yn Saesneg. Ni fydd tendr a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg.

NI FYDD UNRHYW YMATEBION TENDRO A FYDD YN CAEL EU CYFLWYNO AR ÔL Y DYDDIAD CAU AR GYFER CAEL YMATEBION TENDRO A NODIR YN RHAN 4.1 UCHOD, NEU Y DERBYNNIR GAN S4C I UNRHYW GYFEIRIAD AC EITHRIO'R CYFEIRIAD A NODIR UCHOD, YN CAEL EU HYSTYRIED A CAIFF UNRHYW YMATEBION TENDRO O'R FATH EU HEPGOR O'R BROSES DENDRO HON.

Ni fydd S4C yn gyfrifol am unrhyw ddiffygion yn y system ddosbarthu neu am unrhyw ymatebion tendro a fydd yn mynd ar goll, a fydd yn cael eu hoedi neu a fydd yn ddiffygiol. Mae Tendrwyr yn gyfrifol am sicrhau bod eu hymatebion tendro (ac unrhyw atodiadau) yn cael eu paratoi mewn da bryd (gan ystyried y posibilrwydd y bydd staff yn absennol neu y gallai methiannau technegol godi) a'u bod yn cael eu cyflwyno cyn y dyddiad cau ar gyfer cael ymatebion tendro, a nodir yn Rhan 4.1 uchod.

Sylwer mai 20Mb yw'r uchafswm o ran maint negeseuon e-bost y gall S4C eu derbyn ac mai'r ffurfiau a ganiateir ar gyfer ffeiliau yw Word, Excel, PDF a Jpeg. Mae'r ffurfiau hyn yn dderbyniol fel Ffeiliau *Zip.* Dylai Tendrwyr fod yn ymwybodol y gallai eu ISP (Darparwr Gwasanaethau Rhyngrwyd) eu hunain bennu cyfyngiadau is o ran maint negeseuon e-bost ac

felly, fe'u cynghorir i holi eu ISP neu eu hadran TG eu hunain ynghylch unrhyw gyfyngiadau ar faint negeseuon ymhell cyn y dyddiad anfon a'r dyddiad cau.

Ni fernir bod prawf o anfon deunydd yn cyfateb â phrawf bod deunydd wedi cyrraedd, a chynghorir Tendrwyr i geisio cydnabyddiaeth ar ffurf neges e-bost ar wahân bod y deunydd wedi cyrraedd.

### 4.3 Ystyried Ymatebion Tendro

Bydd S4C yn ystyried yr holl ymatebion tendro y derbynnir gan S4C sydd yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y GID hwn a'r holl wybodaeth a gafwyd o unrhyw fynediad treialu/demo yn unol â'r weithdrefn a'r meini prawf a nodir yn Rhan 5 isod. Bydd dyfarnu cytundeb yn cael ei seilio ar asesiad S4C o'r ymateb tendro sy'n cynnig y fantais economaidd fwyaf, yn unol â'r meini prawf a nodir yn Rhan 5 isod. Hysbysir pob Tendrwr a gyflwynodd ymateb i'r GID o ganlyniad gwaith gwerthuso S4C mewn neges e-bost. Gweler Rhan 5.4 ymhellach isod.

### 4.4 Esbonio Ymatebion Tendro

Efallai y bydd S4C yn gofyn i Dendrwyr ddarparu gwybodaeth bellach a/neu esboniad ynghylch unrhyw faterion yn eu hymatebion tendro.

### 4.5 Ceisiadau am Wybodaeth Bellach

Rhaid gwneud pob math o gyswllt mewn perthynas â'r broses dendro hon, gan gynnwys unrhyw geisiadau am wybodaeth bellach a/neu arweiniad wrth gwblhau ymatebion tendro, ar ffurf neges e-bost i S4C, a'u hanfon at **Tendr.Cyfathrebu@s4c.cymru**

Ni ddylai Tendrwyr drafod neu ofyn am wybodaeth ynghylch y broses dendro hon mewn unrhyw ffordd gan unrhyw swyddog, cyflogai, asiant neu gynghorwr arall S4C.

Anogir Tendrwyr i nodi unrhyw arweiniad a/neu wybodaeth bellach y mae'n bosib y bydd ei hangen arnynt mewn cysylltiad â'r broses dendro hon, cyn gynted ag y bo modd. Y dyddiad cau er mwyn cyflwyno ceisiadau am wybodaeth bellach a/neu arweiniad yw **12.00 canol dydd Dydd Mercher 8 Tachwedd 2017.** Ni ystyrir unrhyw geisiadau a fydd yn cael eu gwneud ar ôl y dyddiad cau hwn. Bydd S4C yn ceisio delio â'r holl geisiadau a wneir cyn y dyddiad cau hwn mewn ffordd brydlon.

Er mwyn sicrhau tegwch a thryloywder, sylwer y bydd yr holl geisiadau am wybodaeth bellach a/neu arweiniad ynghylch y broses dendro hon, ynghyd ag ymatebion S4C i geisiadau o'r fath, yn cael eu datgelu i'r holl Dendrwyr. Bydd datgeliadau o'r fath yn cael eu gwneud gan eu postio ar wefan S4C ar http://www.s4c.cymru/cy/tendrau/

Os bydd Tendrwyr o'r farn bod unrhyw gais am wybodaeth bellach a/neu arweiniad y byddant yn ei wneud yn sensitif ar lefel fasnachol, rhaid iddynt nodi "sensitif yn fasnachol" yn eglur ar y cais, a nodi'r rhesymau pam eu bod o'r farn ei bod yn sensitif ar lefel fasnachol. Sylwer, fodd bynnag, y bydd S4C yn penderfynu, yn unol â'i disgresiwn llwyr, a yw'n ystyried bod unrhyw gais o'r fath yn sensitif ar lefel fasnachol. Os bydd S4C yn penderfynu bod cais yn sensitif ar lefel fasnachol, ni fydd S4C yn datgelu'r cais na'i hymateb i gais o'r fath, i Dendrwyr eraill. Os bydd S4C yn penderfynu nad yw cais yn sensitif ar lefel fasnachol, bydd yn hysbysu'r Tendrwr o hyn. Os bydd y Tendrwr yn cytuno nad yw'r cais yn sensitif ar lefel fasnachol, bydd S4C yn ymateb i'r cais a bydd ganddi'r hawl i ddatgelu'r cais, a'i hymateb iddo, i'r holl Dendrwyr. Os na fydd y Tendrwr yn cytuno nad yw'r cais yn sensitif ar lefel fasnachol neu os na fydd yn hysbysu S4C a yw'n cytuno cyn pen un diwrnod gwaith, ystyrir bod y cais yn cael ei dynnu yn ôl ac ni fydd S4C yn ymateb iddo. Ni fydd unrhyw beth yn y paragraff hwn yn cael ei ddehongli fel rhywbeth sy'n cyfyngu ar allu S4C i ddatgelu unrhyw

wybodaeth i unrhyw unigolyn mewn unrhyw ffordd, er mwyn cydymffurfio â'i hymrwymiadau rhyddid gwybodaeth, fel yr amlinellir yn Rhan 6.6 isod.

Bernir bod unrhyw geisiadau ac unrhyw ymatebion iddynt a ddatgelir i'r holl Dendrwyr, yn rhan o'r GID hwn.

**Rhan 5 –Meini Prawf Gwerthuso a Gwobrwyo'r Cytundeb**

**5.1 Profi Cydymffurfiaeth**

Cyn cychwyn ar y broses ffurfiol o werthuso'r ymatebion tendro, bydd S4C yn archwilio'r ymatebion tendro, ac yn benodol y Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol, er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion y GID yn llawn. Gellid gwrthod ymatebion tendro nad ydynt yn cydymffurfio. Bydd S4C yn gwerthuso ymatebion tendro sy'n cydymffurfio yn llawn, yn unol â'r darpariaethau a nodir yn y rhan hwn sef Rhan 5.

**5.2 Gwerthuso**

Dyfarnir y cytundeb ar sail y tendr sy'n cynnig y fantais economaidd fwyaf. Er mwyn asesu pa dendr sydd yn cynnig y fantais economaidd fwyaf, bydd panel o gynrychiolwyr S4C yn gwerthuso ac yn sgorio'r ymatebion i'r GID yma, yn unol â'r meini prawf a'r pwysoliadau canlynol:

| | **Criteria** | **Sgorio** |
|---|---|---|
| 1 | Gallu i ddiwallu anghenion S4C gan gynnwys cydweddoldeb â gwasanaethau trydydd parti | 35% |
| 2 | Profiad perthnasol, cwsmeriaid cyfredol a hanes y meddalwedd/platfform/offer | 5% |
| 3 | Safon y gwasanaethau cefnogi gan gynnwys cyfathrebu effeithiol gydag S4C a datblygu'r gwasanaeth | 10% |
| 4 | Defnyddioldeb a pha mor hawdd yw'r gwasanaeth i'w ddefnyddio | 20% |
| 5 | Ffi | 25% |
| 6 | Sylwadau ar y cytundeb drafft | 5% |
| | CYFANSWM | 100% |

Yn Atodiad 2, cynhwysir y matrics sydd yn nodi sut y bydd y wybodaeth sy'n ofynnol yn Rhan 3.1 uchod yn cael ei gwerthuso yn unol â'r meini prawf hyn.

**5.3 Anghymhwyso Ymatebion Tendro/Tendrwyr**

Mae S4C yn cadw'r hawl i anghymhwyso ymateb tendro a/neu Dendrwr o'r broses dendro hon ar unrhyw adeg os:

(a) na fydd ymateb tendro yn cydymffurfio ag unrhyw rai o ofynion y GID hwn;

(b) bydd unrhyw wybodaeth a ddarperir i S4C gan y Tendrwr perthnasol (neu, yn achos consortiwm, unrhyw un o'i aelodau), yn anghyflawn, yn anghywir neu'n gamarweiniol mewn unrhyw ffordd, neu os na fydd yn gywir mwyach;

(c) bydd y Tendrwr wedi cynllwynio gydag unrhyw unigolyn (heb gynnwys, pan fo'r Tendrwr yn gonsortiwm, cynllwynio rhwng aelodau'r consortiwm mewn cysylltiad ag ymateb tendro y consortiwm) mewn perthynas neu mewn cysylltiad gyda'i ymateb tendro neu ymateb tendro unrhyw Dendrwr arall.

Ni fydd y cam o anghymhwyso unrhyw ymateb tendro neu Dendrwr yn amharu ar unrhyw hawliau neu rwymedïau eraill S4C.

### 5.4 Dyfarnu Cytundeb

Yn unol â darpariaethau Rhan 6.1 isod ac ar ôl cwblhau'r gwaith o werthuso ymatebion tendro, bydd S4C yn hysbysu Tendrwr o ganlyniadau'r gwaith gwerthuso. Bydd gofyn i'r Tendrwr y bu eu hymateb tendro yn llwyddiannus, i ymrwymo i gytundeb gydag S4C ar ffurf y cytundeb drafft. Ni fydd unrhyw gytundeb yn cael ei ffurfio oni bai a nes bod S4C yn arwyddo'r cytundeb. Ni fydd unrhyw dderbyniad llafar neu ysgrifenedig o unrhyw dendr, neu hysbysiad bod Tendrwr wedi bod yn llwyddiannus, yn gyfystyr â rhwymyn cytundeb.

## Rhan 6 Nodiadau Cyfreithiol

### 6.1 Dim ymrwymiad i gynnig y cytundeb

Ni fydd unrhyw beth yn y GID hwn neu unrhyw gyfathrebu rhwng S4C a'r Tendrwr ynghylch y broses dendro neu'r ymateb tendro yn gyfystyr â chontract i ddarparu unrhyw wasanaeth y rhoddir sylw iddo yn y broses dendro hon, neu warant neu gyflwyniad y bydd unrhyw gontract yn cael ei ddyfarnu neu y gallai unrhyw gontract gael ei ddyfarnu.

Mae S4C yn cadw'r hawl i dynnu yn ôl o a/neu adael a/neu ohirio'r broses dendro hon ar unrhyw adeg, i beidio dyfarnu unrhyw gontract o ganlyniad i'r broses dendro hon, i ychwanegu at, diwygio a/neu egluro amodau a thelerau'r GID hwn a/neu i fynnu bod Tendrwyr yn esbonio eu hymatebion tendro a/neu yn darparu gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas ag ef.

### 6.2 Gwrthdaro rhwng Buddiannau

Rhaid i bob Tendrwr ddarparu manylion os rhagwelir y gallai fod gwrthdaro rhwng buddiannau unigolion sy'n ymwneud â'r cais a staff S4C, mae hyn er mwyn galluogi S4C i sicrhau ei fod yn neilltuo staff i'r broses dendro nad oes ganddynt unrhyw berthynas bersonol gydag unrhyw gais.

### 6.3 Cytundeb Drafft

Mae'r cytundeb drafft wedi ei gynnwys yn Atodiad 1.

Rhaid cynnwys unrhyw sylwadau am y cytundeb drafft yn eich cais, fel y nodir ym Rhan 3.1. Fel arall, trwy gyflwyno'ch tendr, bernir eich bod wedi derbyn yr amodau a'r telerau sy'n ymddangos yn y cytundeb drafft.

Nid yw cynnwys sylwadau am y cytundeb yn eich tendr yn golygu bod S4C yn eu derbyn. Mae S4C yn cadw'r hawl i ddiwygio'r cytundeb drafft ar ôl ei gyhoeddi, unwaith y bydd manylion y cais buddugol yn hysbys, er mwyn cydymffurfio ag amodau penodol y trefniant y cytunwyd arnynt gyda'r Tendrwr llwyddiannus. Os na fydd y cytundeb yn cael ei gwblhau yn foddhaol ar ôl dyfarnu'r tendr, mae S4C yn cadw'r hawl i ddyfarnu'r tendr i Dendrwr arall neu i ail-dendro'r cytundeb.

### 6.4 Codau Ymarfer a Chanllawiau

Bydd yn rhaid i'r Tendrwr llwyddiannus gydymffurfio â'r codau ymarfer, y ddeddfwriaeth a'r canllawiau canlynol (ymhlith eraill):

- Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch
- Gofynion Technegol S4C
- Polisi Diogelu Plant S4C
- Canllawiau Brand S4C
- Ymrwymiad Amrywiaeth S4C
- Polisïau Diogelu Data a Phreifatrwydd S4C

Dylai pob Tendrwr gynnwys y gost o gydymffurfio â'r uchod (gan gynnwys cost cyngor priodol) yn y cais. Mae nifer o'r canllawiau hyn ar gael ar Wefan Cynhyrchu S4C sef http://www.s4c.cymru/cy/cynhyrchu/page/1154/canllawiau/.

### 6.5 Rhyddid Gwybodaeth

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ("RhG") 2000 yn weithredol i S4C. Os bydd unrhyw Dendrwr o'r farn bod unrhyw wybodaeth a ddarperir ganddo i S4C yn sgil y gwahoddiad hwn, o natur gyfrinachol neu sensitif yn fasnachol, dylai'r Tendrwr nodi hynny yn benodol gan nodi'r rhesymau dros ystyried y fath wybodaeth yn wybodaeth sensitif. Bydd S4C yn ystyried hyn wrth benderfynu a fydd yn rhyddhau'r wybodaeth wrth ymateb i geisiadau RhG. Fodd bynnag, rhaid i ymgeiswyr dderbyn y bydd S4C yn rhyddhau gwybodaeth o'r fath os bydd yn cael cyngor cyfreithiol bod yn rhaid iddo wneud hynny er mwyn cydymffurfio gyda Deddf RhG. Mae S4C yn cadw'r hawl i benderfynu yn ei ddisgresiwn llwyr os yw unrhyw wybodaeth arbennig wedi ei eithrio rhag ei ddadlenni.

### 6.6 Diogelu Data

Trwy gyflwyno tendr, mae Tendrwyr yn awdurdodi S4C i brosesu'r holl wybodaeth bersonol a ddarparwyd fel rhan o'u cais yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 ac maent yn cadarnhau eu bod wedi sicrhau'r holl ganiatâd trydydd parti angenrheidiol er mwyn galluogi S4C i wneud hynny.

### 6.7 Cyfrinachedd a Chyhoeddusrwydd

Trwy gyflwyno ymateb tendro, mae'r Tendrwyr yn cytuno cadw yn gyfrinachol unrhyw wybodaeth a ddatgelir neu a fydd ar gael i'r Tendrwyr gan S4C mewn unrhyw gyfrwng yn ystod neu mewn cysylltiad â'r broses dendro hon. Cytuna Tendrwyr i beidio defnyddio gwybodaeth o'r fath at unrhyw ddiben ac eithrio'r diben o baratoi'r ymateb tendro, ac i beidio datgelu gwybodaeth o'r fath i unrhyw unigolyn arall ac eithrio mewn ffordd gyfrinachol ac ar sail yr angen i'w gwybod, i'r unigolion hynny sy'n ymwneud â'r gwaith o baratoi'r ymateb tendro yn uniongyrchol. Ni fydd yr oblygiadau cyfrinachedd yn berthnasol i wybodaeth sydd eisoes yn gyhoeddus ar yr adeg y caiff ei datgelu.

Trwy gyflwyno ymateb i'r tendr mae Tendrwyr yn cytuno i sicrhau na fydd aelod(au) o'u staff yn gwneud datganiad cyhoeddus o unrhyw fath (gan gynnwys, heb gyfyngiad, drwy safleoedd gwe rhyngweithio cymdeithasol, megis Facebook neu Twitter neu fel arall) yn gysylltiedig â thestun y tendr hwn neu unrhyw benderfyniad S4C ynglylch unrhyw elfen o'r tendr hwn heblaw fod S4C wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig o flaen llaw i'r fath gyfathrebiad.

### 6.8 Ymwadiad

Nid yw S4C yn cynnig unrhyw warant neu gyflwyniad ynghylch cyflawnder neu gywirdeb unrhyw wybodaeth yn y GID hwn ac mae unrhyw ddibyniaeth ar wybodaeth o'r fath ar eich risg eich hunain.

### 6.9 Costau'r Tendr

Mae pob Tendrwr yn gyfrifol am y costau a'r treuliau sydd yn daladwy mewn cysylltiad â'r broses tendro yma. Ni fydd S4C o dan unrhyw amod yn cyfrannu tuag at y fath gostau a threuliau.

### 6.10 Diwygiadau i Ddogfennau Tendr

Mae S4C yn cadw'r hawl i wneud newidiadau i'r dogfennau tendro cyn y dyddiad cau a nodir yng Ngham 1 4.1 uchod. Er mwyn galluogi ystyriaeth ar gyfer diwygiad o'r fath, gall S4C, yn unol â'i disgresiwn, ymestyn y dyddiadau a nodir yn Rhan 4.1 uchod.

### 6.11 Hawlfraint

Mae S4C yn berchen ar yr hawlfraint yn y GID ac unrhyw ddeunyddiau eraill a gyhoeddir neu a ddarparir gan S4C. Ni chaniateir i Dendrwyr gopïo, atgynhyrchu, defnyddio neu gyhoeddi

copïau o'r GID neu ddeunyddiau o'r fath (neu unrhyw ran ohonynt) ac eithrio yn unol â'r graddau sy'n ofynnol er mwyn paratoi a chyflwyno'u hymatebion tendro.

### 6.12 Dim cyd-gynllunio

Drwy gynnig ymateb i'r GID hwn, mae pob Tendrwr yn cadarnhau:

1. bod yr ymateb i dendr yn "bona fide" ac yn gystadleuol;

2. nad yw'r Tendrwr wedi gosod neu newid yr ymateb yn unol ag unrhyw gytundeb neu drefniant gydag unrhyw berson arall (heblaw yng nghyswllt consortiwm, gydag aelodau eraill y consortiwm) nac wedi gofyn i unrhyw Dendrwr arall i wneud yr un peth; ac

3. nad yw'r Tendrwr wedi trafod neu ymgynghori ag unrhyw berson arall heblaw am S4C ynglyn â swm neu fras gyllideb neu bris ei ymateb i'r tendr, heblaw lle roedd y fath drafod neu ymgynghori yn gyfrinachol ac yn angenrheidiol er mwyn gwneud ymholiadau ynghylch premiwm yswiriant neu ddyfynbris ar gyfer paratoi'r ymateb i'r GID.

### 6.13 Ymddygiad Amhriodol

Os yw'r Tendrwr neu'r rheini sydd yn cynghori unrhyw Dendrwr yn gwneud unrhyw ymgais i ddylanwadu yn amhriodol ar y broses dendr hon neu'r penderfyniad i wobrwyo'r cytundeb mewn unrhyw ffordd, yna bydd gan S4C yr hawl i anghymwyso ymateb y Tendrwr yn nisgresiwn llwyr S4C. Os yw'r Tendrwr neu'r rheini sydd yn cynghori unrhyw Dendrwr yn gwneud unrhyw ymgais i ganfasio unrhyw un o weithwyr neu asiantau S4C yn gysylltiedig â'r broses gystadleuol hon neu yn gwneud ymgais i gael gwybodaeth gan unrhyw un o weithwyr neu asiantau S4C ynglŷn ag unrhyw sefydliad arall sydd yn tendro, yna bydd gan S4C yr hawl i anghymwyso ymateb y Tendrwr hwnnw yn nisgresiwn llwyr S4C.

### 6.14 Cyfraith Lywodraethol

Llywodraethir yr GID hwn gan gyfreithiau Cymru a Lloegr ac mae pob Tendrwr yn cytuno, trwy ddychwelyd ymateb tendro, ymrwymo i awdurdodaeth llwyr-gyfyngedig llysoedd Cymru a Lloegr.

**ATODIAD 1**

**CYTUNDEB**

**YN DDAROSTYNGEDIG I GYTUNDEB**

(Gweler ynghlwm)

**ATODIAD 2**

**MATRICS GWERTHUSO**

(Gweler ynghlwm)

**ATODIAD 3**
**FFURFLEN WYBODAETH SYLFAENOL**

## <u>ADRAN 1 - Gwybodaeth am y Darparwr</u>

| **1.1 Manylion am y Darparwr** | **Ateb** | |
|---|---|---|
| Enw llawn y Darparwr sy'n cwblhau'r ymateb i'r Tendr | | |
| Cyfeiriad cwmni cofrestredig | | |
| Rhif cwmni cofrestredig | | |
| Rhif elusen cofrestredig | | |
| Rhif TAW cofrestredig | | |
| Enw rhiant gwmni uniongyrchol | | |
| Enw rhiant gwmni terfynol | | |
| *Rhowch 'X' yn y blwch perthnasol i nodi eich statws masnachu* | i) cwmni cyfyngedig cyhoeddus | ▢ Ie |
| | ii) cwmni cyfyngedig | ▢ Ie |
| | iii) partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig | ▢ Ie |
| | iv) partneriaeth arall | ▢ Ie |
| | v) unig fasnachwr | ▢ Ie |
| | vi) arall (nodwch os gwelwch yn dda) | ▢ Ie |
| *Rhowch 'X' yn y blwch perthnasol i nodi os oes unrhyw un o'r categorïau hyn yn berthnasol i chi* | i)Menter Wirfoddol, Gymunedol a Chymdeithasol (VCSE) | ▢ Ydy |
| | ii) Menter Fach neu Ganolig (SME) [1] | ▢ Ydy |
| | iii) Gweithdy Gwarchodol | ▢ Ydy |
| | iv) Gwasnaeth cyhoeddus cydfuddiannol (*Public service mutual*) | ▢ Ydy |

[1] Gweler diffiniad yr UE o SME: http://ec.europa.eu/enterprise/policies/sme/facts-figures-analysis/sme-definition/

| 1.2 Model Bidio | |
|---|---|
| **Rhowch 'X' yn y blwch perthnasol i nodi os ydych yn:** | |
| a) Bidio fel Prif Gontractwr a byddwch yn cyflawni 100% o'r deunyddiau allweddol o dan y cytundeb eich hun | ▢ Ydw |
| b) Bidio fel Prif Gontractwr a byddwch yn defnyddio trydydd bartïon i gyflawni <u>rhai</u> o'r gwasanaethau<br><br>*Os ydych, darparwch fanylion am eich model bidio arfaethedig sy'n cynnwys aelodau'r gadwyn gyflenwi, y canran o'r gwaith a gaiff ei gyflawni gan bob is-gontractiwr a'r deunyddiau allweddol y bydd pob is-gontractiwr yn gyfrifol am eu darparu.* | ▢ Ydw |
| c) Bidio fel Prif Gontractwr ond byddwch yn gweithredu fel Asiant Rheoli a byddwch yn defnyddio trydydd bartïon i gyflawni'r gwasanaethau <u>i gyd</u><br><br>*Os ydych, darparwch fanylion am eich model bidio arfaethedig sy'n cynnwys aelodau'r gadwyn gyflenwi, y canran o'r gwaith a gaiff ei gyflawni gan bob is-gontractiwr a'r deunyddiau allweddol y bydd pob is-gontractiwr yn gyfrifol am eu darparu.* | ▢ Ydw |
| d) Bidio fel consortiwm ond nid ydych yn cynnig ffurfio endid cyfreithiol newydd.<br><br>*Os ydych, nodwch fanylion am eich consortiwm yn y golofn nesaf a defnyddiwch Atodlen ar wahân i esbonio'r trefniadau arall h.y. pam nad oes endid cyfreithiol newydd yn cael ei chreu.*<br><br>*Sylwer y gall S4C fynnu i'r consortiwm gymryd ffurf gyfreithiol benodol os dyfernir y cytundeb iddo, i'r graddau y mae hynny'n angenrhedidiol ar gyfer sicrhau perfformiad boddhaol o'r cytundeb.* | ▢ Ydw<br><br><u>Aelodau'r consortiwm</u><br><br><u>Aelod arweiniol</u> |
| e) Bidio fel consortiwm ac yn bwriadu creu Cyfrwng Diben Arbennig (SPV).<br><br>*Os ydych, nodwch fanylion eich consortiwm, aelod arweiniol cyfredol a'r SPV a fwriedir yn y golofn nesaf a darparwch fanylion llawn o'r model bidio gan ddefnyddio Atodlen ar wahân.* | ▢ Ydw<br><br><u>Aelodau'r consortiwm</u><br><br><u>Aelod arweiniol cyfredol</u><br><br><u>Enw'r Cyfrwng Diben Arbennig</u> |

| **1.3 Manylion cyswllt** | |
|---|---|
| Manylion cyswllt yr Ymgeisydd ar gyfer ymholiadau am yr ymateb i'r Tendr hwn | |
| Enw | |
| Cyfeiriad post | |
| Gwlad | |
| Ffôn | |
| Ffôn symudol | |
| E-bost | |
| Dewis iaith cyfweliad (os yn berthnasol) | Cymraeg ▢<br><br>Saesneg ▢ |

| **1.4 Trwyddedu a chofrestru (rhowch 'X' yn y blwch perthnasol)** | | |
|---|---|---|
| 1.4.1 | Cofrestru gyda chorff proffesiynol<br><br>Os yn berthnasol, ydy eich busnes wedi ei gofrestru ar gofrestr(au) fasnach neu broffesiynol perthnasol yn aelod-wladwriaeth yr UE lle y mae wedi ei sefydlu (fel y nodir yn Atodiad XI o gyfeireb 2014/24/EU o dan yr amodau a osodir gan yr aelod-wladwriaeth honno). | ▢ Ydy<br>▢ Nac ydy<br><br>*Os ydy, rhowch y rhif cofrestru yn y blwch hwn.* |
| 1.4.2 | A oes gofyniad cyfreithiol ichi fod wedi eich trwyddedu neu fod yn aelod o sefydliad perthnasol yn y wladwriaeth lle yr ydych wedi eich sefydlu er mwyn darparu'r gofynion yn y broses gaffael hon? | ▢ Oes<br>▢ Nac oes<br><br>*Os oes, darparwch fanylion pellach o fewn y blwch hwn o'r hyn sy'n angenrheidiol a'ch bod wedi cydymffurfio â hyn.* |

**ADRAN 2 - Sail ar gyfer Gwaharddiad Gorfodol**

*Fe gewch eich gwahardd o'r broses dendro hon os oes tystiolaeth o euogfarnau sy'n berthnasol i droseddau gan gynnwys, ond heb gyfyngiad, llwgrwobrwyo, llygredigaeth, cynllwynio, terfysgaeth, twyll a 'gwyngalchu' arian, neu os ydych wedi bod yn destun penderfyniad rhwymol cyfreithiol a ddyfarnodd eich bod wedi torri ar oblygiadau cyfreithiol i dalu treth neu oblygiadau nawdd cymdeithasol (ar wahân i lle bo'r rhain yn anghymesur e.e. symiau mân yn unig).*

*Os ydych wedi ateb "do" i gwestiwn 2.2 ar beidio â thalu treth neu gyfraniadau nawdd cymdeithasol, ac nad ydych wedi talu neu ymrwymo i drefniant rhwymedig i dalu'r swm llawn, gallwch osgoi gwaharddiad os mai symiau mân o drethi neu gyfraniadau nawdd cyhoeddus sydd heb eu talu neu os nad ydych wedi cael amser eto i gyflawni eich oblygiadau ers dod i wybod am y swm penodol sy'n daladwy. Os yw eich sefydliad mewn sefyllfa o'r fath darparwch fanylion gan ddefnyddio Atodlen ar wahân os gwelwch yn dda. Gallwch gysylltu ag S4C am gyngor cyn llenwi'r ffurflen hon.*

| **2.1 O fewn y pum mlynedd diwethaf, a yw eich sefydliad, cyfarwyddwyr neu bartner neu unrhyw berson arall sydd â phwerau cynrychiolaeth, penderfynu neu reolaeth wedi ei ddyfarnu'n euog o unrhyw un o'r troseddau canlynol?** | **Nodwch eich ateb trwy roi 'X' yn y blwch perthnasol.** | |
|---|---|---|
| | **Ydy** | **Nac ydy** |
| (a) cynllwynio o fewn ystyr adran 1 neu 1A o'r Ddeddf Cyfraith Troseddol 1977 neu erthygl 9 neu 9A o Orchymyn Ymgeisiau Troseddol a Chynllwynio (Gogledd Iwerddon) 1983 lle bo'r cynllwynio hwnnw'n ymwneud â bod yn rhan o sefydliad troseddol fel y'i diffinnir yn Erthygl 2 o Benderfyniad Fframwaith y Cyngor 2008/841/JHA ar y frwydr yn erbyn troseddau cyfundrefnol; | | |
| (b) llygredigaeth o fewn ystyr adran 1(2) o Ddeddf Arferion Llwgr Cyrff Cyhoeddus 1889 neu adran 1 o'r Ddeddf Atal Llygredigaeth 1906; | | |
| (c) trosedd cyfraith gwlad o lwgrwobrwyo; | | |
| (ch) llwgrwobrwyo o fewn ystyr adrannau 1, 2 neu 6 o'r Ddeddf Lwgrwobrwyo 2010; neu adran 113 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983; | | |
| (d) unrhyw un o'r troseddau canlynol, lle bo'r drosedd yn ymwneud â thwyll sy'n effeithio ar ddiddordebau ariannol y Cymunedau Ewropeaidd fel y'i diffinnir gan Erthygl 1 o'r Confensiwn er diogelu diddordebau ariannol y Cymunedau Ewropeaidd: | | |
| (i) y drosedd o dwyllo Cyllid y Wlad; | | |
| (ii) y drosedd o gynllwynio i dwyllo; | | |
| (iii) twyll neu ddwyn o fewn ystyr y Ddeddf Dwyn 1968, y Ddeddf Dwyn (Gogledd Iwerddon) 1969, y Ddeddf Dwyn 1978 neu'r Orchymyn Ddwyn | | |

| | | |
|---|---|---|
| (Gogledd Iwerddon) 1978; | | |
| (iv) masnachu twyllodrus o fewn ystyr adran 458 o’r Ddeddf Cwmnïau 1985, erthygl 451 o Orchymyn Cwmnïau (Gogledd Iwerddon) 1986 neu adran 993 o’r Ddeddf Cwmnïau 2006; | | |
| (v) osgoi twyllodrus o fewn ystyr adran 170 o’r Ddeddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979 neu adran 72 o’r Ddeddf Treth ar Werth 1994; | | |
| (vi) trosedd yn ymwneud â threthi yn yr Undeb Ewropeaidd o fewn ystyr adran 71 o’r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1993; | | |
| (vii) dinistrio, difwyno neu guddio dogfennau neu lyffethair gwerthfawr o fewn ystyr adran 20 o’r Ddeddf Dwyn 1968 neu adran 19 o’r Ddeddf Dwyn (Gogledd Iwerddon) 1969; | | |
| (viii) twyll o fewn ystyr adrannau 2, 3 neu 4 o’r Ddeddf Twyll; neu | | |
| (ix) meddiannu ar bethau i’w defnyddio i dwyllo o fewn ystyr adran 6 o’r Ddeddf Twyll 2006, neu wneud, addasu, cyflenwi neu gynnig i gyflenwi pethau i’w defnyddio i dwyllo o fewn ystyr adran 7 o’r Ddeddf honno; | | |
| (dd) unrhyw drosedd sydd wedi ei rhestru— | | |
| (i) yn adran 41 o’r Ddeddf Gwrthderfysgaeth 2008; neu | | |
| (ii) yn Atodiad 2 i’r Ddeddf honno lle bo’r llys wedi penderfynu bod yna gysylltiad terfysgol; | | |
| (e) unrhyw drosedd o dan adrannau 44 i 46 o’r Ddeddf Troseddau Difrifol 2007 sy’n ymwneud â throsedd a gwmpesir gan is-baragraff (f); | | |
| (f) ‘gwyngalchu’ arian o fewn ystyr adrannau 340(11) a 415 o’r Ddeddf Elw Troseddau 2002; | | |
| (ff) trosedd yn ymwneud ag elw o ymddygiad troseddol o fewn ystyr adran 93A, 93B neu 93C o’r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 neu erthygl 45, 46 neu 47 o’r Gorchymyn Elw Troseddol (Gogledd Iwerddon) 1996; | | |
| (g) trosedd o dan adran 4 o’r Ddeddf Lloches a Mewnfudo (Trin Hawlwyr ayyb.) 2004; | | |
| (ng) trosedd o dan adran 59A o’r Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003; | | |

| | | |
|---|---|---|
| (h) trosedd o dan adran 71 o'r Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009; | | |
| (i) trosedd yn gysylltiedig ag elw o fasnachu cyffuriau o fewn ystyr adran 49, 50 neu 51 o'r Ddeddf Masnachu Cyffuriau 1994; neu | | |
| (j) unrhyw drosedd arall o fewn ystyr Erthygl 57(1) o'r Gyfeireb Contractau Cyhoeddus— | | |
| (i) fel y'i diffinnir gan gyfraith unrhyw awdurdodaeth y tu allan i Gymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon; neu | | |
| (ii) a grëwyd, wedi'r dydd y gwnaed y Rheoliadau hyn, yng nghyfraith Cymru a Lloegr neu Ogledd Iwerddon. | | |
| **<u>Peidio â thalu trethi</u>**<br><br>**2.2 A sefydlwyd gan unrhyw benderfyniad barnwrol neu weinyddol sydd ag effaith derfynol a rhwymol yn unol â darpariaethau cyfreithiol unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig neu ddarpariaethau cyfreithiol y wlad y sefydlwyd eich cwmni ynddi (os y tu allan i'r DU), bod eich sefydliad wedi torri ar oblygiadau yn ymwneud â thalu treth neu gyfraniadau nawdd cyhoeddus?**<br><br>*Os ydych wedi ateb "do" i'r cwestiwn hwn, defnyddiwch Atodlen ar wahân i ddarparu rhagor o wybodaeth. Defnyddiwch yr Atodlen hon i gadarnhau os ydych chi wedi talu, neu wedi ymrwymo i drefniant rhwymol gyda'r bwriad o dalu, gan gynnwys, lle'n berthnasol, unrhyw log cronedig a/neu ddirwyon.* | | |

**<u>ADRAN 3 - Sail ar gyfer Gwaharddiad yn ôl Disgresiwn S4C</u>**

*Gall S4C wahardd unrhyw Dendrwr sy'n ateb "ydy" yn unrhyw un o'r sefyllfaoedd canlynol a nodir ym mharagraffau (a) i (ff).*

| **3.1 O fewn y tair blynedd diwethaf, nodwch os yw unrhyw un o'r sefyllfaoedd hyn wedi bod yn berthnasol, neu'n berthnasol ar hyn o bryd, i'ch sefydliad.** | **Nodwch eich ateb trwy roi 'X' yn y blwch perthnasol.** | |
|---|---|---|
| | **Ydy** | **Nac ydy** |
| (a) Mae eich sefydliad wedi torri oblygiadau perthnasol a gyfeirir atynt yn rheoliad 56 (2) o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 ym meysydd cyfraith amgylcheddol, cymdeithasol a llafur a sefydlwyd gan gyfraith yr UE, cyfraith | | |

| | | |
|---|---|---|
| cenedlaethol, cytundebau torfol neu gan y darpariaethau cyfreithiol rhyngwladol amgylcheddol, cymdeithasol a llafur a restrir yn Atodiad X i Gyfeireb Contractau Cyhoeddus fel y'i diwygir o dro i dro; | | |
| (b) Mae eich sefydliad yn fethdalwr neu'n destun achosion ansolfedd neu ddirwyn i ben, lle y mae eich asedion yn cael eu gweinyddu gan ddiddymwr neu gan y llys, lle y mae mewn trefniant gyda chredydwyr, lle y mae gweithgareddau ei fusnes yn cael eu hatal neu ei fod mewn unrhyw sefyllfa gyffelyb sy'n deillio o weithdrefn debyg o dan gyfraith a rheoliadau unrhyw Wladwriaeth; | | |
| (c) Mae eich sefydliad yn euog o gamymddygiad proffesiynol dybryd, sy'n peri bod ei onestrwydd yn amheus; | | |
| (ch) Mae eich sefydliad wedi ymrwymo i gytundebau gyda gweithredwyr economaidd arall gyda'r nod o ystumio (distort) cystadleuaeth; | | |
| (d) Mae gan eich sefydliad wrthdaro buddiannau o fewn ystyr rheoliad 24 o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 na ellir ei ddatrys gan fesurau arall, llai ymwthiol; | | |
| (dd) Mae ymwneud blaenorol eich sefydliad ym mharatoadau'r broses gaffael wedi arwain at ystumiad (distortion) o'r gystadleuaeth, fel y cyfeirir ato yn rheoliad 41, na ellir ei ddatrys gan fesurau arall, llai ymwthiol; | | |
| (e) Mae eich sefydliad wedi dangos diffygion sylweddol neu barhaus wrth berfformio gofyniad sylweddol o dan gytundeb cyhoeddus blaenorol, cytundeb blaenorol gydag endid contractiol, neu gytundeb consesiwn blaenorol a wnaeth arwain at derfynu'r cytundeb blaenorol hwnnw yn gynnar, iawndal neu sancsiynau tebyg arall; | | |
| (f) Mae eich sefydliad—<br>(i) wedi bod yn euog o gamliwiad difrifol wrth gyflenwi'r wybodaeth sy'n ofynnol er mwyn gwirio absenoldeb y seiliau i wahardd neu gyflawni'r meini prawf dethol; neu<br>(ii) wedi dal gwybodaeth o'r fath yn ôl neu nid yw'n medru cyflwyno dogfennau cefnogol sy'n ofynnol o dan reoliad 59 o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015; neu | | |
| (ff) Mae eich sefydliad wedi ymrwymo i | | |
| (i) ddylanwadu'n ormodol ar broses | | |

| | | |
|---|---|---|
| benderfynu'r awdurdod contractio, neu | | |
| (ii) gael gwybodaeth gyfrinachol a all roi manteision gormodol i'ch sefydliad yn y broses gaffael; neu | | |
| (g) Mae eich sefydliad wedi darparu gwybodaeth gamarweiniol mewn modd esgeulus a all gael dylanwad materol ar benderfyniadau ynghylch gwahardd, dewis neu wobrwyo. | | |

**Gwrthdaro buddiannau**

*Yn unol â chwestiwn 3.1 (d), gall S4C wahardd yr Ymgeisydd os oes yna wrthdaro buddiannau na ellir ei ddatrys yn effeithiol. Mae'r cysyniad o wrthdaro buddiannau'n cynnwys unrhyw sefyllfa lle bo gan aelodau perthnasol o'r staff, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ddiddordeb personol ariannol, economaidd neu arall a allai gael ei weld fel rhywbeth sy'n peryglu eu didueddrwydd ac annibyniaeth yng nghyd-destun y broses gaffael.*

*Lle bo unrhyw arwydd bod gwrthdaro buddiannau'n bodoli neu y gallai godi yna cyfrifoldeb yr Ymgeisydd ydyw i hysbysu S4C, gan fanylu ar y gwrthdaro mewn Atodlen ar wahân. Ni ddylai ymgysylltu arferol gan S4C cyn mynd i'r farchnad gynrychioli gwrthdaro buddiannau ar gyfer yr Ymgeisydd, ar yr amod ei fod wedi ei gynnal mewn modd tryloyw.*

**Ystyried Perfformiad Blaenorol Bidwyr**

*Yn unol â chwestiwn (e), gall S4C asesu perfformiad blaenorol yr Ymgeisydd (trwy Dystysgrif Perfformiad a ddarperir gan Gwsmer neu trwy ddulliau eraill o dystiolaeth). Gall S4C gymryd i ystyriaeth unrhyw fethiant i gyflawni rhwymedigaethau o dan brif gytundebau sylweddol blaenorol yr Ymgeisydd sy'n cwblhau'r ymateb i'r Tendr hwn. Gall S4C hefyd asesu os yw'r safonau lleiafswm ar gyfer dibynadwyedd a bennir (lle'n berthnasol) ar gyfer cytundebau o'r fath wedi eu cyrraedd.*

*Yn ogystal, gall S4C ail-asesu dibynadwyedd yn seiliedig ar berfformiad blaenorol ar adegau allweddol yn y broses gaffael (h.y. dethol Ymgeiswyr, gwerthuso tendrau, adeg dyfarnu cytundeb ayyb). Gellir gofyn i Ymgeiswyr ddiweddaru'r dystiolaeth y maent yn ei ddarparu yn yr adran hon i adlewyrchu'r perfformiad mwyaf diweddar ar gytundebau newydd neu gyfredol (neu i gadarnhau nad oes unrhyw newid).*

**'Hunan-olchi'**

*Dylai unrhyw Ymgeisydd sy'n ateb "ydy/do" i gwestiynau 2.1, 2.2 a 3.1 ddarparu tystiolaeth ddigonol, mewn Atodlen ar wahân, sy'n rhoi crynodeb o'r amgylchiadau ac unrhyw gamau adferol a gymerwyd yn ddiweddarach er mwyn "hunan-olchi" y sefyllfa y cyfeiriwyd ati yn y cwestiwn. Rhaid i'r Ymgeisydd ddangos ei fod wedi cymryd camau adferol o'r fath, i foddhad S4C ym mhob achos.*

*Os yw S4C yn ystyried bod y dystiolaeth o'r fath yn ddigonol (a bydd ei phenderfyniad yn derfynol), bydd gan y gweithredwr economaidd perthnasol yr hawl i barhau yn y broses gaffael.*

*Er mwyn i'r dystiolaeth a gyfeiriwyd ato uchod fod yn ddigonol, rhaid i'r Ymgeisydd, yn y man lleiaf, brofi ei fod wedi:*

- *talu neu ymrwymo i dalu iawndal yn gysylltiedig ag unrhyw niwed a achoswyd gan y drosedd neu'r camymddygiad;*
- *gwneud y ffeithiau a'r amgylchiadau'n glir mewn modd cynhwysfawr trwy gydweithredu gyda'r awdurdodau sy'n ymchwilio; ac*
- *wedi cymryd mesurau cadarn yn dechnegol, trefniadol ac o ran personél sy'n briodol i osgoi troseddau a chamymddygiad pellach.*

*Gwerthusir y mesurau a gymerwyd gan yr Ymgeisydd gan ystyried difrifoldeb ac amgylchiadau penodol y drosedd neu gamymddygiad. Lle bo S4C yn ystyried bod y mesurau'n annigonol, rhoddir datganiad i'r Ymgeisydd o'r rhesymau am y penderfyniad hwnnw.*

## ADRAN 4 – Modiwlau Ychwanegol

*Bydd gofyn i Ymgeiswyr sy'n hunan-ardystio eu bod yn cwrdd â gofynion y modiwlau ychwanegol hyn ddarparu tystiolaeth o hynny os ydynt yn llwyddiannus yn y cam dyfarnu cytundeb.*

### 4.1 – Yswiriant

| | |
|---|---|
| Hunan-ardystiwch os oes gennych yn barod, neu os y gallwch ymrwymo i gael, cyn cychwyn y cytundeb, y lefelau isod o yswiriant:<br><br>Yswiriant Atebolrwydd y Cyflogwr (Gorfodol) = £5,000,000<br>Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus = £5,000,000<br>Yswiriant Atebolrwydd Cynnyrch = £10,000,000<br><br>** Y mae'n ofyniad cyfreithiol bod pob cwmni'n dal Yswiriant Atebolrwydd y Cyflogwr (Gorfodol) o £5 miliwn o leiaf. Noder nad yw'r gofyniad hwn yn berthnasol i Unig Fasnachwyr.* | ▫ Ie<br><br>▫ Na |

### 4.2 – Cydymffurfiaeth â Deddfwriaeth Cydraddoldeb

*Dylai sefydliadau sy'n gweithio y tu allan i'r DU gyfeirio at ddeddfwriaeth gyfatebol yn y wlad y maent wedi eu lleoli ynddi.*

| | | |
|---|---|---|
| 1. | O fewn y tair blynedd diwethaf, a oes unrhyw ddyfarniad o wahaniaethu anghyfreithlon wedi ei wneud yn erbyn eich sefydliad gan Dribiwnlys Cyflogaeth, Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth neu unrhyw lys arall (neu mewn achosion cyfatebol mewn unrhyw awdurdodaeth heblaw am y DU)? | ▫ Oes<br><br>▫ Nac oes |
| 2. | O fewn y tair blynedd diwethaf, a oes cwyn wedi ei gadarnhau yn erbyn eich sefydliad yn dilyn archwiliad gan y Comisiwn Hawliau Dynol a Chydraddoldeb neu ei ragflaenwyr (neu gorff cyfatebol mewn unrhyw | ▫ Oes<br><br>▫ Nac oes |

| | | |
|---|---|---|
| | awdurdodaeth heblaw am y DU), ar sail gwahaniaethu anghyfreithlon honedig?<br><br>*Os ydych wedi ateb "oes" i un neu'r ddau gwestiwn yn y modiwl hwn, darparwch, mewn Atodlen ar wahân, grynodeb o natur yr ymchwiliad ac esboniad o ganlyniad yr ymchwiliad hyd yn hyn.*<br><br>*Os gwnaeth yr archwiliad gadarnhau'r cwyn yn erbyn eich sefydliad, defnyddiwch yr Atodlen i esbonio pa gamau (os o gwbl) yr ydych wedi eu cymryd i atal gwahaniaethu anghyfreithlon rhag digwydd eto.*<br><br>*Fe ellir eich gwahardd os nad ydych yn medru profi at foddhad S4C eich bod wedi cymryd camau adferol priodol er mwyn atal gwahaniaethu anghyfreithlon rhag digwydd eto.* | |
| 3. | Os ydych yn defnyddio is-gontractwyr, a oes gennych chi brosesau mewn lle i wirio os oes unrhyw un o'r amgylchiadau uchod yn berthnasol i'r sefydliadau eraill hyn? | ▢ Oes<br><br>▢ Nac oes |

**4.3 – Rheolaeth Amgylcheddol**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Ydy eich sefydliad wedi ei gael yn euog o dorri ar ddeddfwriaeth amgylcheddol, neu gael hysbysiad wedi ei gyflwyno iddo, o fewn y tair blynedd diwethaf gan unrhyw gorff rheoli neu awdurdod (gan gynnwys awdurdod lleol)?<br><br>*Os eich ateb i'r cwestiwn hwn yw "ydy", darparwch fanylion mewn Atodlen ar wahân am yr euogfarn neu hysbysiad a manylion am unrhyw gamau adferol neu newidiadau yr ydych wedi eu gwneud o ganlyniad i'r euogfarn neu'r hysbysiad a gyflwynwyd.*<br><br>*Ni fydd S4C yn dewis bidiwr/wyr sydd wedi eu herlyn neu gael hysbysiad wedi ei gyflwyno iddynt o dan ddeddfwriaeth amgylcheddol o fewn y 3 blynedd diwethaf, oni bai fod S4C yn fodlon bod camau adferol priodol wedi eu cymryd i atal digwyddiadau/toriadau o'r fath yn y dyfodol.* | ▢ Ydy<br><br>▢ Nac ydy |
| 2. | Os ydych yn defnyddio is-gontractwyr, a oes gennych chi brosesau mewn lle i wirio os oes unrhyw un o'r sefydliadau hyn wedi eu herlyn neu gael hysbysiad wedi ei gyflwyno iddynt am dorri ar ddeddfwriaeth amgylcheddol? | ▢ Oes<br><br>▢ Nac oes |

**4.4 – Iechyd a Diogelwch**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Hunan-ardystiwch bod gan eich sefydliad Bolisi Iechyd a Diogelwch sy'n cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol cyfredol. | ▢ Ie<br><br>▢ Na |

S4C

| | | |
|---|---|---|
| 2. | Ydy eich sefydliad neu unrhyw un o'i Gyfarwyddwyr neu Swyddogion Gweithredol wedi derbyn gorchmynion gorfodi/adfer mewn cysylltiad ag Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (neu gorff cyffelyb) o fewn y 3 blynedd diwethaf?<br><br>*Os eich ateb i'r cwestiwn hwn yw "ydy", darparwch fanylion mewn Atodlen ar wahân am unrhyw orchmynion gorfodi/adferol a gyflwynwyd a rhowch fanylion am unrhyw gamau adferol neu newidiadau i weithdrefnau a wnaed gennych o ganlyniad.*<br><br>*Bydd S4C yn gwahardd bidiwr/wyr sydd wedi derbyn gorchmynion gorfodi/camau adferol oni bai fod y bidiwr/wyr yn medru profi i foddhad S4C bod camau adferol priodol wedi eu cymryd i atal digwyddiadau/toriadau o'r fath yn y dyfodol.* | ▢ Ydy<br><br>▢ Nac ydy |
| 3. | Os ydych yn defnyddio is-gontractwyr, a oes gennych chi brosesau mewn lle i wirio os oes unrhyw un o'r amgylchiadau uchod yn berthnasol i'r sefydliadau eraill hyn? | ▢ Oes<br><br>▢ Nac oes |

**ADRAN 5 - Datganiad**

Rwy'n cadarnhau:

(a) bod gennyf yr awdurdod angenrheidiol i gwblhau a dychwelyd yr ymateb i'r Tendr hwn ar ran yr Ymgeisydd;

(b) bod yr holl wybodaeth a roir yn yr ymateb i'r Tendr hwn, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, yn gyflawn a chywir; ac

(c) y byddaf yn rhoi gwybod ar unwaith i S4C petawn yn dod yn ymwybodol bod unrhyw wybodaeth a roddwyd yn yr ymtaeb i'r Tendr hwn yn anghyflawn neu'n anghywir mewn unrhyw ffordd.

Rwy'n cadarnhau ac yn cytuno ar ran yr Ymgeisydd:

1. fod S4C yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("Deddf FOI") ac efallai y bydd angen i S4C ddatgelu gwybodaeth a ddarperir gan neu ar ran yr Ymgeisydd i S4C, dan ddarpariaethau'r Ddeddf FOI. Mae'r Ymgeisydd wedi hysbysu S4C o'r holl wybodaeth a ddarparwyd gan yr Ymgeisydd i S4C yn unol â'r ymateb i'r Tendr hwn sy'n sensitif ar lefel fasnachol neu sydd o natur gyfrinachol, ynghyd â'r rhesymau sy'n esbonio pam bod y wybodaeth o'r fath yn sensitif ar lefel fasnachol neu o natur gyfrinachol. Mae'r Ymgeisydd yn cydnabod na fydd nodi bod gwybodaeth yn gyfrinachol neu'n sensitif ar lefel fasnachol yn gwarantu y bydd y wybodaeth o'r fath yn cael ei hepgor o anghenion datgelu. Trwy lenwi a chyflwyno'r ymateb i'r Tendr hwn, mae'r Ymgeisydd yn derbyn y gallai S4C ddatgelu gwybodaeth o'r fath wrth ymateb i unrhyw gais a wneir dan Ddeddf FOI os bydd S4C o'r farn, yn unol â'i disgresiwn, ei bod yn briodol gwneud hynny;

2. trwy lenwi a chyflwyno'r ymateb i'r Tendr hwn, mae'r Ymgeisydd yn awdurdodi S4C i brosesu'r holl wybodaeth a ddarparwyd fel rhan o'r cais ac mae'n cadarnhau ei fod wedi sicrhau pob caniatâd angenrheidiol gan drydydd partïon er mwyn galluogi S4C i wneud hynny;

3. trwy lenwi a chyflwyno'r ymateb i'r Tendr hwn, mae'r Ymgeisydd yn cytuno cadw unrhyw wybodaeth a ddatgelir neu a gaiff ei wneud ar gael iddo fel arall gan S4C, ym mha bynnag gyfrwng yn ystod neu mewn cysylltiad â'r broses dendro hon, yn gyfrinachol;

4. ni fydd yr ymateb i'r Tendr hwn wedi'i lenwi nac unrhyw gyfathrebiad rhwng S4C a'r Ymgeisydd yn cyfateb â chytundeb neu gynnig y gellir ei dderbyn neu gyflwyniad y bydd unrhyw gytundeb yn cael ei ddyfarnu ac mae S4C yn cadw'r hawl: (a) i dynnu yn ôl o a/neu roi'r gorau i a/neu ohirio'r broses dendro hon ar unrhyw adeg; ac/neu (b) i beidio â dyfarnu unrhyw gytundeb o ganlyniad i'r broses dendro hon;

5. os canfyddir bod yr ymateb i'r Tendr hwn yn anghyflawn, yn anghywir neu'n gamarweiniol mewn unrhyw ffordd, mae S4C yn cadw'r hawl i wahardd yr Ymgeisydd o'r broses dendro hon ar ba bynnag gam y mae'r broses dendro hon wedi cyrraedd; ac

6. nad oes gwrthdaro buddiannau mewn perthynas â gofynion S4C.

Mae'r atodlenni canlynol yn ffurfio rhan o'r cyflwyniad hwn:

| **Adran y Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol** | **Rhif yr Atodlen** |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

Llofnod:

___

Enw:

___

Swydd:

___

Cynrychiolydd a
awdurdodwyd yn briodol
dros ac ar ran:

___

Dyddiad:

___

**Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol – Templed ar gyfer Atodlenni**

| |
|---|
| **Rhif yr Atodlen -** |
| **Adran y Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol -** |
| **Rhif y cwestiwn -** |
| |